**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

4 Ebrill 2023

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

**Arian ychwanegol ar gyfer pyllau nofio**

Annwyl Rebecca a Dawn,

Mae ein pwyllgor wedi codi pryderon gyda chi yn y gorffennol ynglŷn ag effaith costau cynyddol ar gyfleusterau chwaraeon, yn enwedig pyllau nofio, ac rydym yn ysgrifennu eto i fynegi ein pryder cynyddol.

Yng Nghyllideb y Gwanwyn, cyhoeddodd y Canghellor £63 miliwn o gyllid ar gyfer pyllau nofio yn Lloegr. Hoffem wybod:

- A fydd y cyllid hwn yn sbarduno cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer Llywodraeth Cymru ac, os felly, faint.
- A fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol y mae'n ei gael o ganlyniad i'r cyhoeddiad hwn i gefnogi pyllau nofio.

Fel pwyllgor, bu inni alw'n flaenorol am gymorth ychwanegol i'r sector hwn yn ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2022, **Costau cynyddol: Yr effaith ar ddiwylliant a chwaraeon** a'n hadroddiad diweddar ar **Gyllideb Ddrafft 2023-24**.

Ym mis Chwefror 2023, ysgrifennodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Community Leisure UK atom gyda phryder sylweddol nad oes digon yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector. Dywedasant ar y pryd:

> *"While the Welsh Government has repeatedly said that they are not aware of any immediate threat to facilities in terms of closure, we believe this view is misguided as there is a very real and immediate threat to the delivery of public leisure services."*

Ar 29 Mawrth 2023, wrth roi **tystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**, pwysleisiodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Nofio Cymru yr angen am gyllid ychwanegol. Cyfeiriodd Fergus Feeney o Nofio Cymru at raddfa'r gyllid sydd ei angen:

> *"Just outlining the gap, we think between £10 million and £12 million, best case. But we start at about £30 million. So, this is a significant problem."*

Hoffem ailadrodd ein galwad am gymorth ychwanegol ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden ac, yn benodol, pyllau nofio. Rydym yn nodi, wrth gwrs, na fydd unrhyw gyllid canlyniadol Barnett a ddaw i Lywodraeth Cymru o'r £63 miliwn o gyllid ar gyfer Lloegr yn datrys y problemau a wynebir yng Nghymru, ond credwn serch hynny y byddai'n gam cyntaf gwerthfawr. Byddem hefyd am ailadrodd ein galwadau blaenorol am fuddsoddiad cyfalaf mewn effeithlonrwydd ynni ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden, a phwysleisio y dylai hyn fod yn elfen allweddol o unrhyw gyllid ychwanegol a ddarperir.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.